Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

**Briff Polisi**
Rhagfyr 2022

# Ymagweddau rhyngwladol at bontio teg

## Cyflwyniad

Er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i ddiffinio'r hyn a olygir wrth 'bontio teg' yng nghyd-destun Cymru, cynhaliom adolygiad tystiolaeth ar ymagweddau rhyngwladol at bontio teg. Ystyriom a ellir edrych ar bontio teg yng Nghymru drwy lens Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (WBFGA).

## Cyd-destun

Mae yna gytundeb gwleidyddol eang ar yr angen i ddatgarboneiddio economïau mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd parhaus. Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy yn glir, a WBFGA yw pedwaredd strategaeth datblygu cynaliadwy Cymru (Nesom a MacKillop, 2021). Mae'r saith nod llesiant, Ffigur 1, yn adlewyrchu'r pedwar piler datblygu cynaliadwy o fewn y Ddeddf (cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol).

Er mwyn cyflawni cynaliadwyedd yng Nghymru, mae angen gwella'r pedair agwedd hon ar lesiant. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus osod amcanion llesiant a dangos eu bod yn cymryd camau i gyflawni'r amcanion hyn.

## Beth yw pontio teg?

Mae toreth o ymagweddau a diffiniadau wedi dod i'r amlwg mewn perthynas â phontio teg.

Daeth ymagwedd sy'n canolbwyntio ar lafur i'r amlwg yn y 1970au ac mae'n canolbwyntio ar hawliau gweithwyr a chymunedau yr effeithiwyd arnynt gan y broses o bontio oddi wrth echdynnu a defnyddio tanwydd ffosil. O fewn yr ymagwedd hon, mesurir polisïau pontio teg ar ymgysylltu â chymunedau, creu swyddi sy'n talu'n dda, amrywiaeth croestoriadol a chydnabyddiaeth y dylai polisïau gael eu teilwra i gyd-destunau lleol (Emden et al., 2020).




Ffigur 1: Nodau llesiant a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Yn gyfochrog â'r ymagwedd sy'n canolbwyntio ar lafur, mae gwahanol gysyniadau o gyfiawnder yn sail i ddiffiniadau pontio teg:

- Mae **cyfiawnder amgylcheddol** yn archwilio'r cysylltiadau rhwng anghydraddoldebau (dosbarth, rhyw, a hil) a'r amgylchedd;
- Mae **cyfiawnder hinsawdd** yn canolbwyntio ar sut mae pontio yn ymateb i oblygiadau newid hinsawdd cyflym ar gyfer grwpiau bregus;

- Mae **cyfiawnder ynni** yn canolbwyntio ar liniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl ar lesiant o symud cynhyrchiant ynni i ffynonellau cynaliadwy, a thuag at ddulliau mwy cynaliadwy o ddefnyddio ynni; ac
- Mae **cyfiawnder sy’n pontio’r cenedlaethau** yn ymwneud â sut y bydd ein gweithredoedd yn effeithio ar genedlaethau'r dyfodol.

Mae gan bob un o’r mathau hyn o gyfiawnder ei ffocws a’i gymuned polisi unigryw ei hun, er bod gorgyffwrdd sylweddol. Gall dod â chyfiawnder amgylcheddol, cyfiawnder hinsawdd a chyfiawnder ynni ynghyd hyrwyddo tegwch a chyfiawnder yn ystod y cyfnod pontio (McCauley a Heffron, 2018).

## Egwyddorion arweiniol

Mae llawer o ymdrechion i ddiffinio pontio teg yn canolbwyntio nid ar ddatblygu ymagwedd gyffredinol ond yn hytrach ar gyflwyno egwyddorion a all dywys datblygiad fframweithiau sy’n benodol i gyd-destun.

Mae Sefydliad yr Amgylchedd Stockholm wedi datblygu set enghreifftiol o egwyddorion ar gyfer pontio teg (Ateridge a Strambo, 2020: 7), sy'n cyfuno ystyriaethau lluosog:

1. Annog datgarboneiddio yn weithredol;
2. Osgoi creu cloeon carbon gyda phobl yn y sectorau hyn ar eu colled;
3. Cefnogi rhanbarthau yr effeithir arnynt;
4. Cefnogi gweithwyr, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach y mae cau neu israddio yn effeithio arnynt;
5. Glanhau difrod amgylcheddol, a sicrhau nad yw costau cysylltiedig yn cael eu trosglwyddo o'r sector preifat i'r sector cyhoeddus;
6. Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd a chymdeithasol presennol; a
7. Sicrhau proses gynllunio gynhwysol a thryloyw.

## Ymagweddau polisi at bontio teg

Mae ymagwedd polisi yn cynnwys creu strategaethau a chynlluniau gweithredu fel mecanweithiau cymorth ar gyfer grwpiau cymdeithasol a busnesau. Mae ganddynt nodweddion cyffredin gan gynnwys:

- Creu fframwaith cydlynu;
- Ffocws cynllunio hirdymor;
- Meithrin capasiti; a
- Darparu cyllid.

Mae Strategaeth Cystadleurwydd Gwyrdd Norwy yn dangos sut y gall Norwy gyflawni sero net trwy fuddsoddi mewn diwydiannau newydd a gwyrdd (Pinker, 2020). Mae’r Almaen a Chanada wedi sefydlu comisiynau i nodi effaith pontio ar wahanol grwpiau cymdeithasol ac economaidd (Pinker, 2020). Mae Cronfa Pontio Gweithwyr Olew yr Alban yn ailhyfforddi gweithwyr olew a nwy i drosglwyddo i rolau newydd mewn diwydiannau mwy cynaliadwy (Piggot et al., 2019).

Er mwyn sicrhau bod pontio teg mor effeithiol â phosibl ar ôl ei fabwysiadu, ni ddylai gael ei ystyried yn ‘ychwanegiad’ i bolisïau hinsawdd - dylai gael ei ‘sefydlu fel blaenoriaeth weithredol’ (Abram et al., 2022: 1035). Mae Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2019 yr Alban yn ymgorffori pontio teg o fewn y system wleidyddol ddomestig.

## WBFGA fel sylfaen ar gyfer pontio teg yng Nghymru

Mae alinio’r ymagweddau uchod â’r nodau llesiant yn awgrymu bod WBFGA yn darparu sylfaen addas ar gyfer mabwysiadu pontio teg yng Nghymru.


Mae WBFGA yn mabwysiadu ymagwedd sy’n pontio’r cenedlaethau at lesiant a chynaliadwyedd, gan ystyried cenedlaethau'r dyfodol wrth wneud penderfyniadau heddiw. Mae hyn yn ei halinio â'r rhan fwyaf o ymagweddau pontio teg. Cyflwynir aliniadau penodol yn Ffigur 2.

Mesur llesiant Mae cynnyrch domestig gros yn fesur cul o ffyniant economaidd. Mae ymagweddau newydd yn cydnabod bod llesiant unigolion a chymunedau yn cael ei ddylanwadu gan fwy na phryderon economaidd, Ffigur 3 (Nesom a Tilley, 2021). Mae mabwysiadu lens

llesiant yn golygu na ddylai nodau hinsawdd a llesiant ‘gael eu dilyn ar wahân i’w gilydd’ (OECD, 2019: 11).




*Ffigur 2: Nodau llesiant a’u hymagweddau aliniol*




*Ffigur 3: Fframwaith llesiant a chynaliadwyedd OECD*

## Fframweithiau llesiant rhyngwladol

Mae’r gwersi ar gyfer mabwysiadu pontio teg o fewn fframwaith llesiant yn cynnwys:

- 'Cyllideb Llesiant' Seland Newydd gyda phontio teg wedi’i restru fel un o'r pum amcan 'llesiant parhaus' a nodir yn y gyllideb. Rhaid i’r llywodraeth adrodd yn flynyddol ar yr amcanion llesiant.
- Mae Monitor Economi Llesiant wedi’i ddatblygu i fesur sut mae economi’r Alban yn cyfrannu at wella iechyd, cydraddoldeb, cynaliadwyedd amgylcheddol a gwaith teg fel rhan o’i weledigaeth ar gyfer economi llesiant. Defnyddir data a gesglir ochr yn ochr â metrigau traddodiadol i lywio penderfyniadau’r dyfodol sy’n ymdrechu tuag at economi llesiant.
- Mae partneriaeth Llywodraethau’r Economi Llesiant rhwng Cymru, yr Alban, Seland Newydd, Gwlad yr Iâ a’r Ffindir yn rhannu arbenigedd ac arferion polisi.

## Casgliad

Mae ymagwedd pontio teg yn dangos ymrwymiad i degwch a chynwysoldeb mewn polisi datgarboneiddio. Gall sawl cysyniad o gyfiawnder fod yn sail i bontio teg a gall dod â’r rhain ynghyd arwain at fframwaith mwy cynhwysol a chynhwysfawr.

Er y derbynnir nad oes un ymagwedd sy’n briodol ar gyfer pob cyd-destun, mae enghreifftiau rhyngwladol yn amlygu arferion cyffredin, megis creu fframwaith cydlynu, technegau cynllunio hirdymor newydd a meithrin capasiti.

Gan fod WBFGA yn sail i ffocws ar lesiant a datblygu cynaliadwy o fewn polisïau ac arferion Llywodraeth Cymru, mae profiad rhyngwladol yn awgrymu bod y Ddeddf yn darparu sylfaen addas ar gyfer mabwysiadu ymagwedd pontio teg yng Nghymru.

Dylai gweithredu pontio teg o fewn ymagwedd llesiant gael ei gefnogi gan gyfres o egwyddorion arweiniol a fydd yn hanfodol i sicrhau bod y broses bontio’n goresgyn yr

anghydraddoldebau presennol. Bydd cyflwyno ymagweddau polisi arloesol i sefydlu addasiadau ym mholisïau Llywodraeth Cymru yn bwysig i gyflawni hyn.

## Cyfeiriadau


Abram, S., Atkins, E., Dietzel, A., Jenkins, K. Kiamba, L. a Kirshner, J. (2022). **Just Transition: A whole-systems approach to decarbonisation**. Climate Policy 22: 1033-1049.

Atteridge, A. a Strambo, C. (2020). **Seven principles to realize a just transition to a low-carbon economy**. Stockholm: Sefydliad yr Amgylchedd Stockholm.

Emden, J. a Murphy, L. (2019). **A Just Transition: Realising the opportunities of decarbonisation in the North of England**. Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus. Gwelwyd yn https://www.ippr.org/files/2019-03/energy-skills-march19.pdf

McCauley, D. a Heffron, R. (2018). **Just transition: Integrating climate, energy and environmental justice**. Energy Policy. 119: 1-7.

Nesom, S. a MacKillop, E. (2021). **What matters in the implementation of sustainable development policies? Findings from the Well-Being of Future Generations (Wales) Act 2015**. Journal of Environmental Policy and Planning. 23(4): 432-445.

Nesom, S. a Tilley, H. (2021). **Well-being and the impacts of Covid-19 and Brexit.** Papur Briffio Tystiolaeth WCPP. Gwelwyd yn https://www.wcpp.org.uk/publication/well-being-briefings-for-public-services-boards/

OECD. (2019). **Accelerating climate action: Refocusing policies through a well-being lens**. *OECD*. Paris.

Piggot, G., Boyland, M., Down, A. a Torre, A. R. (2019). **Realizing a just and equitable transition away from fossil fuels.** Stockholm: Sefydliad yr Amgylchedd Stockholm.

Pinker, A. (2020). **Just transitions: a comparative perspective**. Aberdeen: The James Hutton Institute a SEFARI Gateway.


## Rhagor o wybodaeth

Am yr adroddiad llawn gweler Morgan, C., Carter, I., Tilley, H., Haines-Doran, T. a Taylor-Collins, E. (2022). **Ymagweddau rhyngwladol at bontio teg.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

## Ynglŷn â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y ganolfan, rydym yn cydweithio ag arbenigwyr polisi blaenllaw i roi tystiolaeth a chyngor annibynnol o ansawdd uchel i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sy'n eu helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisi.

Mae'r Ganolfan, a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn aelod o Rwydwaith 'What Works' y DU.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:


**Dr Tom Haines-Doran**

+44 (0)29 2087 5345

tom.haines-doran@wcpp.org.uk